
# Y RHEOLIADAU GWRYCHOEDD

## ATEBION I'CH CWESTIYNAU



Welsh Office
Y Swyddfa Gymreig



## *Daeth rheolau newydd ar wrychoedd i rym ar 1 Mehefin 1997.*

*O dan Reoliadau Gwrychoedd 1997 (OS Rhif 1160):*

- *Mae'n anghyfreithlon dileu'r mwyafrif o wrychoedd cefn gwlad heb ganiatâd.*
- *I gael caniatâd i ddileu gwrych, rhaid ysgrifennu at eich awdurdod cynllunio lleol.*
- *Os yw'r awdurdod yn penderfynu gwahardd dileu gwrych pwysig, rhaid iddynt roi gwybod i chi cyn pen 6 wythnos.*
- *Os byddwch yn dileu gwrych (boed yn bwysig neu beidio) heb ganiatâd, gallech wynebu dirwy ddiderfyn. Gall fod rhaid i chi blannu gwrych arall yn ei le hefyd.*

*Gwybodaeth gyfyngedig yn unig sydd yn y daflen hon. Mae'n grynodeb byr yn unig, heb unrhyw rym cyfreithiol.*

**Mae'r ffordd y cymhwysir y Rheoliadau at wrychoedd unigol yn gymhleth. Mae'n ddoeth felly i chi drafod unrhyw gynlluniau i ddileu gwrychoedd gyda'r awdurdod cynllunio lleol yn anffurfiol yn gynnar yn y broses - a chyn i chi ofyn yn ffurfiol am ganiatâd. Os gwneir cais, byddant yn rhoi esboniad ysgrifenedig o'r hyn y mae'n rhaid ei wneud a pham.**

## 1. A oes angen caniatâd i ddileu fy ngwrych naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol?

OES, os yw'ch gwrych ar y canlynol, neu'n rhedeg yn eu hymyl:

- tir amaethyddol;
- tir comin, gan gynnwys lawnt tref neu bentref;
- tir a ddefnyddir ar gyfer coedwigaeth neu i fridio neu gadw ceffylau, merlod neu asynnod; neu
- Warchodfa Natur Leol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

NAC OES, os yw:

- yn llai nag 20 metr o hyd (oni bai bod y ddau ben yn cysylltu â gwrychoedd eraill neu os yw'n rhan o wrych hirach); neu
- yn rhan o'ch gardd, neu'n ffinio â hi.

Cyfrifir bylchau o 20 metr o hyd neu lai yn rhan o'r gwrych. Gall bwlch fod yn doriad yn y llystyfiant, neu gall fod wedi'i lenwi, er enghraifft â llidiart.

NID oes rhaid i chi gael caniatâd i ddileu'ch gwrych ychwaith:

- er mwyn cael mynediad -
  ***naill ai*** yn lle agoriad sy'n bodoli eisoes, ar yr amod eich bod yn plannu darn newydd o wrych i lenwi'r fynedfa wreiddiol, ***neu***
  lle nad oes mynedfa arall ar gael; ac eithrio am gost anghymesur;
- i gael mynediad dros dro i helpu mewn argyfwng;
- i gydymffurfio a gorchymyn statudol iechyd planhigion neu iechyd coedwig;
- i gydymffurfio â hysbysiad statudol, i atal ymyrryd â gwifrau ac offer trydan;
- mewn cysylltiad â gwaith traenio statudol neu waith statudol i amddiffyn rhag llifogydd; neu
- i weithredu caniatâd cynllunio (ond yn achos hawliau datblygu a ganiateir, FE FYDD angen caniatâd ymlaen llaw i ddileu'r mwyafrif o wrychoedd).

Ceir eithriadau pellach ar gyfer diogelwch gwladol ac ar gyfer dileu gwrychoedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gweithredu fel yr Asiantaeth Priffyrdd yng Nghymru.

Nid oes angen caniatâd ymlaen llaw ar gyfer rheolaeth arferol eich gwrych.

## 2. Ai diwreiddio yn unig yw ystyr dileu gwrych?

**NAGE.** Mae dileu gwrych yn cynnwys gweithrediadau eraill sy'n golygu bod y gwrych yn cael ei ddinistrio hefyd, ond trinnir coedlannu, plygu a dileu prysgwydd a choed marw neu afiach fel rheolaeth arferol.

## 3. Pwy sy'n cael gofyn caniatâd i ddileu gwrych?

Y tirfeddiannydd, y tenant amaethyddol, y tenant busnes fferm neu gyfleustodau penodol megis cwmnïau nwy, yn unig.

## 4. Sut dylwn i ofyn am ganiatâd i ddileu gwrych?

Rhaid i chi anfon hysbysiad dileu gwrych i'r awdurdod cynllunio lleol, sef, y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Ni chodir tâl am hyn. Os ydych yn byw mewn Parc Cenedlaethol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio lleol. Gallwch gael ffurflen oddi wrth yr awdurdod.

## 5. Beth sy'n digwydd ar ôl i'r awdurdod gael yr hysbysiad?

Maent yn ymweld â'r safle i benderfynu a yw'r gwrych yn "bwysig" ac fe allent fynd i'ch tir. Er mwyn iddo fod yn "bwysig", rhaid i'r gwrych (i) fod o leiaf 30 oed, a (ii) bodloni o leiaf un o'r 8 maen prawf penodedig, sydd wedi'u crynhoi ar y tudalen cefn. Mae'r meini prawf hyn yn nodi gwrychoedd sydd o werth penodol o safbwynt archaeoleg, hanes, bywyd gwyllt neu'r tirlun.

Rhaid i'r awdurdod ymgynghori â'r cyngor cymuned hefyd.

## 6. Beth os nad yw'r gwrych yn "bwysig"?

Ni all yr awdurdod wrthod caniatâd i chi ddileu'r gwrych. Dylent ysgrifennu i ddweud y gellir dileu'r gwrych. Nid yw'r caniatâd yn diddymu unrhyw ofynion i hysbysu neu i sicrhau caniatâd o dan ddeddfwriaeth arall, nac unrhyw oblygiadau contractiol.

## 7. Beth os yw'r gwrych yn "bwysig"?

Bydd yr awdurdod yn penderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau dileu gwrych pwysig. Mae yna ragdybiaeth gref o blaid diogelu gwrychoedd pwysig. Os nad ydynt yn fodlon y gellir cyfiawnhau dileu'r gwrych, rhaid i'r awdurdod wrthod caniatâd. Byddant yn ysgrifennu i ddweud y gwaherddir dileu'r gwrych. Yr enw ar hyn yw **hysbysiad cadw gwrych**.

### 8. Beth os na chlywaf oddi wrth yr awdurdod?

Cewch ddileu'r gwrych os nad ydych yn clywed oddi wrthynt ymhen 6 wythnos ar ôl i'r awdurdod gael eich hysbysiad dileu gwrych - oni bai eich bod wedi cytuno i estyniad.

### 9. Am faint o amser y bydd y caniatâd yn para?

2 flynedd naill ai o ddyddiad caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod, neu o ddiwedd y cyfnod o 6 wythnos. Ar gyfer y gwaith a nodwyd yn eich cais y rhoddir y caniatâd a dim rhagor. Rhaid i chi gael caniatâd newydd ar gyfer unrhyw waith arall.

### 10. Beth os yw'r awdurdod yn gwrthod caniatâd? A gaf fi herio'r hysbysiad cadw gwrych?

Cewch, gallwch apelio yn ysgrifenedig at yr Ysgrifennydd Gwladol cyn pen 28 diwrnod o gael penderfyniad yr awdurdod. Bydd yr hysbysiad cadw gwrych yn esbonio sut.

### 11. Am faint o amser y bydd hysbysiad cadw gwrych yn para?

Mae hysbysiad cadw gwrych yn barhaol. Ond, os bydd yr amgylchiadau'n newid, cewch gyflwyno hysbysiad dileu newydd.

### 12. Beth os byddaf yn dileu gwrych heb ofyn am ganiatâd?

Oni bai bod un o'r eithriadau yn C1 yn gymwys, mae'n dramgwydd troseddol dileu gwrych yn fwriadol heb ganiatâd. Os dyfernir eich bod yn euog gan lys ynadon gallech wynebu dirwy o hyd at £5,000. Os daw'r achos gerbron llys y goron, nid oes terfyn ar y ddirwy.

### 13. A oes rhaid i mi ailblannu gwrych os byddaf yn ei ddileu heb ganiatâd?

Gallai'r awdurdod ddweud bod rhaid i chi blannu gwrych arall. Mae ganddynt bwerau cyfreithiol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r gwrych newydd yn "bwysig" yn awtomatig am 30 mlynedd ar ôl ei blannu.

### 14. A oes grantiau ar gael ar gyfer adfer neu gynnal gwrychoedd?

Mae'n bosibl y bydd grantiau'n daladwy o dan rai o gynlluniau'r Llywodraeth. Hwyrach hefyd y gall rhai awdurdodau lleol ddarparu cyllid ac y bydd y Gwarchodwyr Cefn Gwlad yn gallu helpu gydag adfer gwrychoedd. Yng Nghymru, gellir cael cyngor am ddim ar gadwraeth trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cefn Gwlad ac Amaethyddiaeth (CAIS) drwy ffonio 0345 125 744. Gallant roi cyngor ar grantiau a rheoli gwrychoedd hefyd.

## GWRYCHOEDD PWYSIG: Y MEINI PRAWF

Mae'r Rheoliadau'n manylu ar sut i fodloni'r meini prawf. Arweiniad syml yn unig yw hwn.

1. Mae'n nodi ffin plwyf neu dref gynharach na 1850.
2. Mae'n cynnwys nodwedd archaeolegol.
3. Mae'n rhan o safle archaeolegol neu'n perthyn iddo.
4. Mae'n nodi ffin ystad neu faenor gynharach na 1600 neu'n perthyn iddynt.
5. Mae'n rhan annatod o system amgáu tiroedd comin cyn-Seneddol.
6. Mae'n cynnwys categorïau penodol o rywogaethau o adar, anifeiliaid neu blanhigion a restrwyd yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad neu yng Nghyhoeddiadau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).
7. Mae'n cynnwys:
   (a) o leiaf 7 rhywogaeth goediog, ar gyfartaledd, mewn darn 30 metr o hyd;
   (b) o leiaf 6 rhywogaeth goediog, ar gyfartaledd, mewn darn 30 metr o hyd ac o leiaf 3 nodwedd gysylltiedig;
   (c) o leiaf 6 rhywogaeth goediog, ar gyfartaledd, mewn darn 30 metr o hyd, gan gynnwys poplysen ddu, pisgwydden ddeilfawr, pisgwydden ddeilfach, neu gerddinen wyllt; neu
   (d) o leiaf 5 rhywogaeth goediog, ar gyfartaledd, mewn darn 30 metr o hyd ac o leiaf 4 nodwedd gysylltiedig.

Mae nifer y rhywogaethau coediog a ganiateir un yn llai yn siroedd gogledd Lloegr. Mae'r rhestr o 56 o rywogaethau coediog yn cynnwys llwyni a choed yn bennaf. Yn gyffredinol, nid yw hyn yn cynnwys planhigion dringo (megis, dringhedydd, gwyddfid a miaren) ond mae'n cynnwys rhosynnod gwyllt.

8. Mae'n rhedeg ar hyd llwybr ceffylau, llwybr troed, ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus, neu gilffordd sy'n agored i bob traffig ac yn cynnwys o leiaf 4 rhywogaeth goediog, ar gyfartaledd, mewn darn 30 metr o hyd ac o leiaf 2 o'r nodweddion cysylltiedig a restrwyd yn 7(i) i (v) isod.

Y nodweddion cysylltiedig yw:
(i) clawdd neu fur yn cynnal y gwrych;
(ii) llai na 10% o fylchau;
(iii) ar gyfartaledd, o leiaf un goeden pob 50 metr:
(iv) o leiaf 3 rhywogaeth o restr o 57 o blanhigion coetir;
(v) ffos;
(vi) nifer o gysylltiadau â gwrychoedd eraill, pyllau dŵr neu goetir;
(vii) gwrych paralel o fewn 15 metr.

Cynhyrchwyd ar ran y Swyddfa Gymreig gan y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog.
Y fersiwn Gymraeg gan Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd ym Mhrydain Fawr ar ddeunydd sy'n cynnwys 75% o wastraff ôl-ddefnydd a 25% o bwip ECF.